Gwern Ap Rhisiart – Swyddog Gwella Ansawdd Addysg/Cynhwysiad)

Cwestiwn yma gan berson ifanc o ardal Meirionydd yn gofyn a fase'n bosib cael ganolfan i bobl ifanc er mwyn iddynt gael cyngor ar Iechyd Rhywiol a Pherthnasau. Oes 'na unrhyw ffordd i hyn ddigwydd?

A young person from the Meirionydd area suggested it would be a good idea to have an information centre for young people to talk about sexual health and relationship matters, do you think this could be possible?

Aaron - Barnardo's

Mae cynnal gwasanethau megis canolfan iechyd rhywiol mewn a pherthnasau mewn ardaloedd gwledig megis Meirionydd yn her sylweddol. Yn fy marn i nid wyf yn gweld y byddai creu darpariaeth o'r newydd yn bosib yn yr hinsawdd economaidd yma. Awgrymaf mae'r ffordd ymlaen fyddai datblygu mwy o gymorth ac adnoddau ar y we ac yna datblygu gwell darpariaeth un i un drwy ddarpariaeth mewn meddygfa, canolfannau hamdden neu ysgolion lleol.

A ydych yn gweld ffioedd dysgu yn aros yr un fath neu yn y dyfodol yn mynd i fod yr un fath a Lloegr?

Medi Griffiths, Clwb Ieuenctid

Mae'n debyg y bydd Cymru yn wahanol i Loegr am beth amser. Hyn yn bennaf oherwydd fod y Cynulliad yn awyddus i ddangos ei ymroddiad i addysg ac i amlygu annibynniaeth addysg yma yn Nghymru. Yn anorfod bydd rhaid i ni bwyso a mesur faint fydd yn mynd i'n colegau addysg bellach gan nad yw'r cynnydd presennol yn gynaladwy. Felly i grynhoi bydd ffioedd yn aros y is na Lloegr ond bydd lleihad mewn niferoedd o fyfrwyr fel yn Lloegr.

Mae 'na bobl ifanc yn holi os oes modd cael 'cyrsiau bach' yn y colegau. Maent yn teimlo bod 'na ormod o waith papur. Mae 'na berson a diddordeb mewn 'Gwallt a Harddwch' ac eisiau cael gyrfa yn y maes ond yn teimlo bod dyslecsia yn ei rhwystro.
Ydi'r panel yn meddwl bod 'na gyfle ac yn syniad da i gynnig cyrsiau fel hyn yn y dyfodol er mwyn iddynt gael y cyfle fel pawb arall?

Barnardos

Credaf fod y syniad o gyrsiau bach yn syniad rhagorol. Serch hynny credaf na ddylai dyslecsia rwystro neb rhag llwyddo mewn unrhyw yrfa, rwyf innau hefyd yn brwydro dyslecsia. Beth bynnag y swydd mae angen darllen, ysgrifennu a delio a rhifau. Gallaf feddwl am sawl tasg mewn salon fyddai gofyn am y tri sgil. Hwyrach mae'r ffordd ymlaen yw i chi ddysgu drwy wneud prentisiaeth mewn lleoliad gwaith. Dewch i ddeall pwysigrwydd y gwaith papur wrth wneud y gwaith o ddydd i ddydd.

Felly i grynhoi credaf mai'r ateb yw cydlynu mwy o brentisiaethau sydd yn gyd fynd a chyrsiau sydd yn rhoi sylw ir elfennau megis rhifedd a llythrennedd fydd yn gymorth i chi yn y lleoliad gwaith.